

Cyfarfod <i>Cyfarfod</i>	Partneriaeth Gwledig Môn / Arloesi Môn		
Lle <i>Lleoliad</i>	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad <i>Dyddiad</i>	10/10/18	Amser <i>Amser</i>	1.00 pm

Presennol:

Cynrychiolwyr y Sector Menter:	
Nigel Peacock (NP)	
Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol / Cymunedol	
Jean Baker (JB)	Ymddiriedolaeth Treftadaeth Ddiwydiannol Porthaethwy
Adrian Roberts (AR)	Ynni Hafren Gwy
Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus	
Martin Jardine (MJ)	Grŵp Llandrillo Menai (Cadeirydd)
Molly Lovatt (ML)	CNC
Llio Ifan (LII)	Datblygu Economaidd CSYM
Staff Menter Môn	
Dafydd Gruffydd (DG)	
Bethan Frazer-Williams (BFW)	
Jackie Lewis (JL)	
Staff Cyngor Ynys Môn	
Eifion Jones (EJ)	
Eraill yn bresennol	
	Cyfieithydd

Pwynt	Manylion	Gweithredu
1	Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod	

2	<p>Ymddiheuriadau</p> <p>Dr Dylan Evans Neville Evans Bryn Jones Edna Jones Dewi Lloyd Sian Purcell Sue Roberts Eryl Williams Jane Davies</p>	
3	<p>Datganiad o Ddiddordeb Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Ddiddordeb</p>	
4	<p><u>Cofnodion y cyfarfod 17/07/18</u> Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod ar 17/7/18.</p>	
5	<p><u>Materion yn Codi.</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddodd ELJ fod y tabl allbwn wedi'i ddiweddarau ond nododd nad oedd yr allbynnau yn cael eu cofnodi yno hyd nes bod y prosiectau wedi eu cau. • Gan nad oedd JD yn bresennol, rhoddir ei hadroddiad ar entrepreneuriaeth a chyswllt â Peter Winstanley yn y cyfarfod nesaf. • Cafwyd gweithdy gyda Wavehill cyn y cyfarfod. • Gofynnir i Wavehill hwyluso adolygiad y SDLI. • Adroddiadau prosiectau archwiliol i'w cwblhau yn dilyn ymweliadau. • Cyflwynwyd sylwadau RCDF i Lywodraeth Cymru • Ni fu EOI Canolfan Hamdden Amlwch yn llwyddiannus. 	
6	<p><u>Adroddiad Cynnydd</u> Cyflwynodd EJ yr adroddiad cynnydd yn nodi'r prosiectau RCDF llwyddiannus, newidiadau mewn staffio, a gwariant proffil. Nodwyd bod hyn yn rhwydd o fewn y +/- 15% sy'n dderbyniol i LIC.</p>	
7	<p><u>Cynigion Prosiect</u></p> <p><u>John Cave, un o'r enwogion lleol</u> Cyflwynodd JL gynnydd yn seiliedig ar gydgasglu, digideiddio ac arddangos casgliad y diweddar John Cave. Gofynnwyd p'un a allai eraill gyfrannu ac a ellid ei ailenwi yn 'Arwyr Lleol' oherwydd efallai</p>	

<p>na fyddai eraill yn ymwybodol o bwy oedd John Cave. Awgrymwyd y gellid defnyddio casgliad John Cave fel peilot i ddatblygu fframwaith y gellid ei ddefnyddio gan eraill.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig yn amodol ar gadarnhad trwy e-bost - £33,500</p> <p><u>Monyn</u></p> <p>Cynnig i greu cymeriad animeiddiedig a fydd yn teithio o amgylch Ynys Môn i wahanol fannau o ddiddordeb ac arwyddocâd, yn cyfleu hanes a chwedlau'r ardal mewn ffordd hwyliog i blant o bob oed. Awgrymwyd y dylid cynnwys ysgolion i awgrymu'r lleoliadau gorau a sicrhau cysylltiadau gyda'r cwricwlwm. Awgrymwyd hefyd y dylai gwahanol fathau o leoliadau gael eu cynnwys e.e. natur.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig yn amodol ar gadarnhad trwy e-bost - £25,000</p> <p><u>Trên Tir Caergybi</u></p> <p>Cyflwynodd JL y cynnig ar gyfer astudiaeth ddichonolrwydd i mewn i drên tir, a fyddai'n weithredol yng Nghaergybi. Eglurwyd bod llongau mordeithio a datblygiad Penrhos gan Bluestones yn cynnig cyfle i fanteisio ar farchnad hwylus. Er bod yr amgylchiadau wedi newid, pwysleisiwyd bod angen i'r astudiaeth ganolbwyntio ar gynaliadwyedd i'r dyfodol, a chaniatáu ar gyfer atgyweirio ac amnewid yng ngoleuni ymdrechion blaenorol.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig yn amodol ar gadarnhad trwy e-bost - £10,500</p> <p>Pobl a'u Cymunedau Gwnaeth JL grynhoi'r prosiect. Nodwyd fod diffyg capasiti ac arian yn TeliMôn a bod gan y papurau bro her gyda lleihad mewn cylchrediad a dibyniaeth ar wirfoddolwyr. 'Roedd grŵp mewn lle a'r bwriad oedd ceisio denu pobl ifanc ac ymestyn apel papurau bro. Awgrymwyd y byddai bod yn ddwyieithog yn ymestyn eu hapel, ond ni fyddai hynny yn dderbynniol i'r papurau bro. Pwysleisiwyd na ellid gorfodi'r prosiect arnynt neb eu hymrwymiad llawn.</p> <p>'Roedd y grŵp yn gefnogol ond argymhellwyd ymgynghoriad pellach cyn gweithredu.</p> <p><u>Biwmares Bi-blastig</u></p> <p>Cychwynnodd y cynnig hwn o weithdy ar sbwriel gyda swyddogion y Cyngor ym mis Gorffennaf a chafodd ei gyflwyno gan BFW.</p>	
---	--

<p>Peilot yw hwn i annog mabwysiadu statws di-blastig i Fiwmares ac mae'n cyd-fynd â dyheadau tebyg gan y Cyngor ar gyfer yr Ynys yn gyffredinol.</p> <p>Awgrymwyd bod ymgyrhaedd â sefyllfa ddi-blastig yn uchelgeisiol ac y byddai dileu plastig un defnydd yn fwy ymarferol. Awgrymwyd hefyd olrhain sbwriel môr yn ôl i'w ffynhonnell.</p> <p>Awgrymodd ML y dylid gweithio gyda'r AHNE a chyfeirio at waith tebyg a wneir yng Nghernyw.</p> <p>Crybwyllodd MJ orchudd di-blastig ar gyfer bwyd.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig yn amodol ar gadarnhad trwy e-bost - £10,500</p> <p><u>Toiledau Cyhoeddus</u></p> <p>Cyflwynodd BFW y cynnig hwn ar gyfer astudiaeth fach o'r gronfa dan £5K. Mae'n golygu comisiynu ymgyngorydd i gynorthwyo i lunio holiaduron a dadansoddi canlyniadau astudiaeth gwmpasu gan CSYM yn edrych ar y ddarpariaeth gyfredol a sut y gellir ei gwella e.e. newid babanod, yr anabl, cawodydd ayb. Bydd yn ffocysu ar y sectorau cyhoeddus a'r preifat ac yn ymgysylltu â busnesau i weld pwy fyddai'n barod i gydweithredu am ddim neu ar sail pryniant/ cyfraniad. Y prif rai i gael mantais o hyn fyddai ymwelwyr. Awgrymwyd y dylid ymgyngori â Chroeso Cymru hefyd.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig yn amodol ar gadarnhad trwy e-bost - o dan £5,000</p> <p><u>Ymchwil 5k</u></p> <p>Mae'n debyg y byddai'r astudiaeth uchod yn defnyddio'r holl gronfa ymchwil ar gyfer thema 3 a gofynnwyd am £5,000 pellach.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig yn amodol ar gadarnhad trwy e-bost - o dan £5,000</p> <p><u>SiniMôn</u></p> <p>Esboniodd JL fod y prosiect wedi bod yn llwyddiannus ac wedi ymweld â thros 20 o leoliadau a dangos ffilmiau i dros 1000 o bobl. Roedd digwyddiad awyr agored wedi denu 300 o bobl tra cafwyd cynulleidfa o 120 yn Llangoed. Roedd y diwygiad i'r prosiect hwn am £5000 arall i archwilio cyfleoedd pellach i alluogi SiniMon i</p>	<p>ML & MJ i anfon manylion cyswllt ymlaen</p>
--	---

	<p>ddatblygu i fod yn fenter gymdeithasol ei hun.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig yn amodol ar gadarnhad trwy e-bost - £5,000</p> <p><u>Telimon</u></p> <p>Esboniodd JL fod 30 o raglenni wedi'u cynhyrchu yn ystod y 4 mis diwethaf ac roeddent ar gael ar you tube - telimon. Roedd y diwygiad ar gyfer costau gweinyddu prosiect a chamera 'gweld yn y nos' i ffilmio anifeiliaid nos a chysylltu â'r prosiect awyr dywyll.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig yn amodol ar gadarnhad trwy e-bost - £10,000</p> <p>Cysylltiad Ysgol Ddigidol</p> <p>Byddai'r cynnig hwn am gyllid o'r gronfa dan £5,000 yn edrych ar app dwyieithog i ysgolion gyfathrebu â'i gilydd. Roedd rhai o'r aelodau o'r farn bod hyn yn rhywbeth y dylid ei ariannu gan yr adran addysg yn hytrach na thrwy LEADER.</p> <p>Penderfynwyd gohirio penderfyniad hyd nes y byddai JD yn bresennol i esbonio'r cynnig yn llawn.</p> <p><u>Cymunedau Cysylltiedig</u></p> <p>Cyflwynodd DG y cynnig prosiect cydweithredu peilot gyda Gwynedd. Mae'n ceisio hysbysu cymunedau sydd â band eang gwael o'r opsiynau sydd ar gael i ddatrys y sefyllfa. Ni fydd yn cefnogi gosod offer.</p> <p>Cefnogwyd y cynnig yn amodol ar gadarnhad trwy e-bost - £12,500</p>	
8	<p><u>Gwerthusiad</u></p> <p>Esboniodd DG fod ymgynghoriaeth Wavehill wedi bod yn llwyddiannus wrth dendro am werthusiad tymor canolig a chwarterol LEADER ar gyfer Môn a Gwynedd. Mae hyn i fod i gychwyn ym mis Medi a byddant yn cysylltu ag aelodau GGLI, staff a buddiolwyr terfynol i gael eu mewnbwn. Dywedodd JB ei bod hi'n bryderus ynghylch pa mor fanwl fyddai'r gwerthusiad, ac a fyddai pobl yn gyfforddus â chael eu cyfweld. Awgrymwyd anfon gwybodaeth ymlaen llaw at bawb a allai gael eu cyfweld i roi gwybod iddynt am y broses a'r hyn y gellir ei ddisgwyl. Cododd MJ fater y SDLI ac awgrymodd y dylid cynnal adolygiad yn unol â'r gwerthusiad canol tymor; roedd yr aelodau'n hapus gyda'r datganiad hwn.</p>	<p>I'w drafod ymhellach yn y cyfarfod GGLI nesaf?</p> <p>EJ i drefnu adolygiad y SDLI</p>

9	<p><u>Ymweliad â'r Ffindir</u></p> <p>Adroddodd NP ynghylch yr ymweliad gan LEADER Môn a Gwynedd i'r Ffindir a nodwyd bod rhai prosiectau diddorol y gellid eu rhannu ar Ynys Môn. Nododd JL fod ganddi o bosib ddau brosiect trawswladol, llwybrau yn Lithwania ac ymweliad astudio i Awstria i edrych ar ddiwylliant, treftadaeth a'r Economi Glas gan gynnwys newid yn yr hinsawdd. Roedd gan ML ddiddordeb i wybod mwy, yn enwedig am brosiect Lithwania. Roedd yr holl aelodau yn hapus i JL archwilio cyfleoedd ac adrodd yn ôl gydag unrhyw geisiadau am ymweliadau astudio trawswladol ar gyfer y cyfarfod nesaf.</p>	<p>JL i gwblhau ffurflen ymchwiliol ar gyfer cyfarfod nesaf y GGLI</p>
10	<p><u>RCDF</u></p> <p>Cyflwynwyd tri chais RCDF gan Ynys Môn ar gyfer y rownd ddiwethaf a byddai LIC yn hoffi sylwadau gan y GGLI ynghylch symud y ceisiadau o gam EOI ymlaen. Cyflwynodd DG:</p> <p>Môn Gysylltiedig – darparu cyfleuster band eang i 5 cymuned - gofynnodd ML a oedd hyn yn briodol gan nad oedd y prosiect TV Whitespace wedi ei ddatblygu oherwydd bod cysylltedd nawr ar gael yn yr ardal hon. Ymatebodd DG trwy ddweud bod Open Reach mewn cyfnod o drafodaethau ar gyfer y cam nesaf o ddatblygiad, ac y byddai hyn yn cymryd peth amser.</p> <p>Pentrefi Smart - darparu cyfleoedd i gymunedau fod yn 'SMART' gan gynnwys atebion digidol a thrafnidiaeth. Gwnaeth JB sylw ar y rhwydwaith symudol mewn rhai ardaloedd gwledig; ymatebodd DG yn gadarnhaol, ac oherwydd mai dim ond EOI oedd hwn, gellid ei gynnwys yn ystod cam llawn y cais</p> <p>Canolfan Hamdden Amlwch - adroddodd DLL ar y cynllun peilot hwn a oedd yn cynnwys amnewid ffynonellau gwres a thrydan presennol gydag ynni adnewyddadwy i gynorthwyo effeithlonrwydd a thorri costau. Gofynnodd ML pam y bwriedid newid boeleri nwy gyda boeleri nwy eraill yn hytrach nag edrych ar atebion adnewyddadwy eraill - ymatebwyd bod rhywfaint o waith wedi'i wneud i nodi pam; cylchredir yr adroddiad hwnnw gyda'r cofnodion.</p>	<p>EJ i adrodd ar y sylwadau i LIC</p> <p>EJ i gylchredeg adroddiad Adeiladau Cymunedol gyda chofnodion</p>
11	<p><u>Adborth Prosiectau</u></p> <p><u>Sini Môn</u></p> <p>Mae peilot SiniMôn yn datblygu'n dda gyda gwahanol fodolau busnes yn cael eu hystyried. Erbyn hyn, mae chwe chymuned wedi archebu'r gwasanaeth gyda sefydliadau a busnesau eraill hefyd yn</p>	

	<p>dangos diddordeb, sy'n gwneud cyfanswm o 10. Gellir gwasanaethu busnesau ar gost lawn, a thros amser, gallai hynny gynorthwyo i ddarparu cymorthdal ar gyfer y gwasanaeth i gymunedau. Mae yna hefyd botensial i weithio gydag Off the Grid i ymestyn y gwasanaeth.</p> <p><u>TeliMôn</u></p> <p>Lansiwyd TeliMôn ac mae'n cynhyrchu oddeutu 2 fideo bob wythnos, ac mae wedi recriwtio dau ddyn camera newydd o dan hyfforddiant. Mae hefyd wedi darparu hyfforddiant i 4 o bobl i olygu, ac wedi ffurfio partneriaeth â Choleg Menai ar gyfer datblygu talent ifanc yn y dyfodol ar Ynys Môn. Mae TeliMôn hefyd wedi sicrhau 9K pellach o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i ddarparu rhaglen ychwanegol o ffilmiau sy'n darlunio'r AHNE a chyfleoedd bywyd gwyllt eraill ar Ynys Môn.</p> <p><u>Gwledd Symudadwy</u></p> <p>Dywedodd JD fod presenoldeb eithaf da yn y digwyddiadau gwledd symudadwy ond cafwyd rhai problemau gyda chynhyrchwyr a chyflenwyr a oedd bellach wedi cael eu cywiro.</p> <p><u>Gweithdy Sbwriel</u></p> <p>Nododd BFW fod y gweithdy wedi bod yn llwyddiannus a bod nifer o syniadau wedi eu crybwyll a fydd yn dod yn gynlluniau peilot LEADER yn y dyfodol - gofynnodd ML a oedd yr AHNE yn cymryd rhan gan eu bod yn gweithio ar rai prosiectau eu hunain ac roedd yn bwysig cydweithio - ymatebodd BFW trwy ddweud bod Alun Morgan Owen yn bresennol, a bod cydweithrediad yn digwydd.</p>	
8	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u></p> <p>Hysbysodd DLI y cyfarfod fod CSYM wedi derbyn rhywfaint o gyllid gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r drychineb yn y Marina yng Nghaergybi. Gallai'r arian hwn fod ar gael ar gyfer digwyddiadau.</p> <p>Llongyfarchodd MJ y grŵp ar ehangder y prosiectau.</p>	
9	<p><u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u></p> <p>10/10/18</p>	

	Gorffen	
--	---------	--



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*

